

Beached!

Cregyn mawr, hir



Beached!

Beth sy'n dod i'r lan yn eich ardal chi?

Astudiaeth o draethlin ein traethau lleol.

Mae Beached! yn brosiect sy'n ceisio mapio'r bywyd môr marw neu ar farw sy'n cronni ar hyd ein traethau ni. Mae hwn yn ddigwyddiad cyffredin ac, yn aml iawn, yn ddigwyddiad naturiol fel rhan o gylch bywyd y môr, ond ychydig iawn ydyn ni'n ei wybod am ble neu pam mae'r 'drylliadau molwsgiaid' hyn yn digwydd.


Byddai'r prosiect yma'n addas iawn i bobl sy'n cerdded ar hyd traeth yn rheolaidd ac sydd eisieu gwybod mwy am y môr oddi ar y lan.

Gallwch ein helpu ni i ddysgu llawer mwy drwy ddim ond tynnu lluniau ar eich ffôn symudol!

Cofrestrwch i fod ar ein rhestr bostio i dderbyn ein cylchlythyr a rhagor o wybodaeth am y prosiect.

Am fwy wybodaeth, gwelwch yma:

www.northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/what-we-do-landing-page/cadwraeth-bywyd-gwyllt/ein-prosiectau-ni/beached



Cregyn mawr, hir

Os gwelwch chi gregyn deuglawr mawr, hir mewn llongddrylliad, i'w hadnabod neu ein helpu ni i'w hadnabod, bydd rhaid i chi wneud nodyn / tynnu llun yn ddelfrydol o rai nodweddion: llun clir o siâp cyffredinol y gragen, gan sicrhau eich bod yn gallu gweld ble mae'r pig mewn perthynas â'r ymylon blaen (fentral) ac ôl (posterior); maint gyda darn o arian / pren mesur; a cherflun o'r gragen.

Dorsal

Y **pig** yw'r ardal lle mae'r anifail yn dechrau tyfu ei gragen pan mae'n ifanc. Mae i'w weld yn amlwg ar yr ymyl dorsal. Gall lleoliad y pig, mewn perthynas â gweddill y gragen, helpu gydag adnabod.

Yn yr ardal hon hefyd mae'r ligament, sy'n gorfodi'r ddwy gragen ar wahân (cyhyrau yn y gragen wedi cau). Gall fod yn allanol neu'n fewnol (y ddau yn aml) a hir / byr.

Posterior
(lle mae'r seiffon)

Anterior
(blaen)


Maint a siâp: mae rhai o'r cregyn deuglawr hyn yn hirgrwn neu grwn ac mae gan rai ardaloedd mwy sgwâr neu grwn i gadw llygad amdanynt. Mae'r maint mwyaf, fel oedolion, yn amrywio o 80 i 150mm o hyd.

Gellir rhannu Dorsal, Fentral, Posterior ac Anterior yn feysydd pellach (e.e. anterior-dorsal/posterior-fentral).

Fentral

Trwch y gragen, ymylon a cherflun arwyneb – mae rhai gwahaniaethau yn nhrwch cyffredinol y gragen, y llinellau, y rhychau a'r patrymau ar yr arwyneb allanol ac ar ymyl y gragen, ac maent i gyd yn gallu helpu gydag adnabod.

Lliw y gragen a'r Periostracwm
(gorchudd tenau organig allanol y gragen)



Cragen y dyfrgi (*Lutraria lutraria*).

Dyma'r gragen a welir fwyaf cyffredin efallai a byddwn yn cymharu cregyn eraill tebyg yn ei herbyn (**gwahaniaethau amlycach mewn teip trwm ar y tudalennau nesaf**). Mae hwn yn dyrchwr dwfn mewn ardaloedd arfordirol bas a dyma'r brif rywogaeth yn y "golchiad" yn Llanddona (sydd i'w weld yn yr wybodaeth hyfforddi).

Lliw a gorchudd periostracwm: cragen wen gyda haen denau, wyrddfrown, fflawiog o beriostracwm.

Trwch y gragen, cerflun ac ymylon: Cragen denau, frau, gyda llinellau consentrig, rhychau mân ac ymyl lyfn.

Ligament: rhan fechan a welir ar du allan y gragen. Brown tywyll ac yn ddwfn.

Bydd y seiffonau wedi'u huno i'w gweld, wrth i'r ddwy falf (cregyn) fylchu yn y blaen a'r cefn.



Pig: yn y pen blaen, lai na 1/3 ar hyd yr ymyl dorsal.

Mae'r ymylon anterior a phosterior ar dro ac yn plygu'n agos at y pig.

Maint a siâp: uchafswm o 125mm mewn hyd. Siâp hirgrwn llydan.

Lutraria angustior

Gall hwn dyrchu'n ddwfn hefyd, ond mae'n cael ei ddisgrifio'n eistedd yn fertigol yn yr is-haen gyda'r seiffon ar yr arwyneb. Cynefin – ardaloedd arfordirol bas.

Lliw a haen periostracwm: cragen wen gyda haen periostracwm denau, **brown golau**.

Trwch y gragen, cerflun ac ymylon: **Cragen drwchus, gadarn** gyda llinellau consentrig a rhychau mân ac ymyl lyfn.

Ligament: rhan fechan a welir ar du allan y gragen. Brown tywyll ac yn ddwfn.

Bydd y seiffonau wedi'u huno i'w gweld, wrth i'r ddwy falf (cregyn) fylchu yn y blaen a'r cefn. Y bwlch blaen yn gulach.



Pig: yn y pen blaen tua 1/3 o'r ffordd ar hyd yr ymyl dorsal. Yr ymylon anterior a phosterior ar dro a'r ymyl dorsal yn syth yn y pig.

Y tro yn yr ymyl fentral tua 1/3 o'r ffordd ar hyd ac yn edrych fel pe bai'n dynwared y pig.

Maint a siâp: uchafswm o 115mm mewn hyd. Ddim mor hirgrwn llydan ar draws y gragen, fel cragen y Dyfrgi (culach yn y pen posterior).

Cragen blacen (*Mya arenaria*)

Dyma dyrchwr dwfn, yn agos at y lan mewn aberoedd ac ardaloedd cysgodol, hefyd yn byw mewn ardaloedd bas i 50m. Gall y cregyn hyn fod yn wahanol iawn o ran amlinelliad a thrwch.

Lliw a haen periostracwm: cragen lliw hufen / brown golau gyda haen periostracwm denau lliw gwellt.

Trwch y gragen, cerflun ac ymylon: cragen gadarn, gref gyda

llinellau a rhychau consentrig amlwg ac ymyl lyfn.

Ligament: rhan fechan o'r ligament yn allanol, ond cudd.

Bydd y seiffonau wedi'u huno i'w gweld wrth i'r falffau (cregyn) fylchu yn y posterior.



Pig: ar linell ganol y gragen neu fymryn o'r blaen. Yr ymylon anterior a phosterior yn grwn yn fras ond mae'r posterior yn culhau i bwynt culach. Mae'r ymyl fentral yn syth.

Maint a siâp: 150mm o hyd.

Llydan, hirgrwn ac nid yw'r falffau yn union yr un siâp (mae'r RV yn fwy amgrwm).

Clust eliffant (*Mya truncata*).

Mae hwn yn dyrchwr dwfn mewn ardaloedd arfordirol bas.

Lliw a gorchudd periostracwm: cragen wen i hufen gyda gorchudd periostracwm y dywedir ei fod yn amrywiol o ran lliw gyda phob sbesimen yn lliw gwellt neu frown tywyll.

Trwch cragen, cerflun ac ymylon: Cragen gadarn gyda llinellau consentrig amlwg a rhychau a'r ymyl yn llyfn.

Ligament: rhan fach i'w gweld y tu allan i'r cragen. Yn frown

tywyll ac mewn lleoliad dwfn

Bydd y seiffonau wedi'u hasio'n weladwy, wrth i'r ddwy falf (cregyn) fylchu'n llydan yn y cefn.

Pan mae'r anifail yn dal yn fyw mae eu siffonau wedi'u gorchuddio gan estyniadau lledraidd o'r periostracwm.



Pig: ar linell ganol y cragen neu ychydig y tu ôl iddi. Mae'r ddau big yn cael eu cyfeirio am i mewn ac yn cyffwrdd.

Mae'r ymyl allanol yn grwn yn fras, ond mae'r ymyl posterior wedi'i dorri'n fyr. Mae'r ymyl fentrol yn syth.

Maint a siâp: hyd at 80mm o hyd. Hirsgwar, hir ac nid yw'r falfiau yn union yr un siâp (mae'r RV yn fwy amgrwm).

Am wahaniaethau mewnol ychwanegol ar gyfer cregyn gwag (i'r rhai sydd â diddordeb mewn arch-wilio mwy):

Ar gyfer yr holl gregyn yma mae'r sinws palial yn ymestyn i fod o dan ardal y pig ac mae'r gwahaniaethau'n gysylltiedig â sut mae ymyl gwaelod y sinws yn cysylltu â'r llinell palial (edrychwch ar y saethau gwyn sydd wedi'u darparu gan Ivor Rees).

Yn *Lutraria angustior* (dde) mae'r llinell palial yn asio ag ymyl isaf y sinws palial, ond yn *L. lutraria* (isod) mae'r llinellau yn aros ar wahân o dan y pwynt gorffen.



Sinws palial yw'r ardal lle gall y seiffon dynnu'n ôl ac mae'n ofod y tu mewn i'r gragen wedi'i amgylchynu gan feinwe sydd ynghlwm wrtho. Gall ei faint i mewn i ardal y gragen fod yn nodwedd adnabod.

Llinell palial yw lle mae corff yr anifail yn eistedd ynghlwm wrth y gragen yn agos at yr ymyl. Gall ei siâp, pa mor hir ydyw, a lle mae'n stopio mewn perthynas â nodweddion eraill helpu i'w adnabod i gyd.

Ar gyfer gwahaniaethau mewnol ychwanegol ar gyfer cregyn gwag:

Ar gyfer *Mya truncata* (dde) mae'r llinell palial yn cyfuno'n afreolaidd ag ymyl isaf y sinws palial ond yn *Mya arenaria* (isod) mae'r llinellau'n aros ar wahân tan y diwedd.

©Amgueddfa Cymru




©Amgueddfa Cymru



Felly, am help pellach i wahaniaethu rhwng *L. lutraria* ac *M. arenaria*, sydd â llinellau palial anghyson tebyg, a rhwng *L. angustior* ac *M. truncate*, sydd â llinellau cyson, gallwch edrych ar ardal y pig.

Mae gan yr holl rywogaethau hyn silff siâp llwy o'r enw'r Chondrophore, lle mae'r ligament yn cydio. Ar gyfer rhywogaethau *Lutraria* mae hefyd ardaloedd uchel o flaen y silff yma o'r enw dannedd colfach. Nid oes gan y rhywogaeth *Mya* ddannedd yn y golfach.

L. angustior — © Ivor Rees



Yn olaf, mae cregyn tebyg eraill o ran maint a / neu siâp yn ddwy rywogaeth sy'n llai tebygol o gael eu gweld am wahanol resymau, ond sy'n werth gwybod amdany'n nhw, rhag ofn y dewch chi ar eu traws.

(*Lutraria oblonga* — *L. magna yn flaenorol*). Yn dibynnu ar y ffynhonnell: dosbarthiad = Arfordir de'r DU yn unig / ambell un wedi'i gweld, gan gynnwys gogledd bae Aberteifi. Tyrchwr dwfn mewn ardaloedd bas / dyfnder canolig. Gwahaniaethau mawr ar gyfer adnabod: Amlinelliad hirgrwn, siâp cwch wrth i ran ôl y gragen ymestyn a throï mewn ffordd geugrwm ar yr ymyl dorsal ôl. Mae'r ymyl fentrol yn grwm gyda'r pwynt isaf tua hanner ffordd.



©Amgueddfa Cymru

© Ivor Rees



Solecurtus scopula

Cragen lai, ond yn eang ei dosbarthiad yng ngorllewin y DU. Wedi'i chofnodi fel tyrchwr gweithredol mewn ardaloedd arfordirol bas. Gwahaniaethau mawr ar gyfer adnabod: Maint mwyaf 45mm, Pig o flaen y llinell ganol. Mae'r ymyl posterior yn gulach na'r anterior. Mae'r cerflun yn asennau lletraws sy'n rhedeg o'r pig i'r ymyl.

Am fwy gwybodaeth brosiect Beached! cysylltu â:

Swydd Gaerhirfryn a Glannau Merswy: Dr
Geraldine Reid, World Museum, Lerpwl:
Geraldine.Reid@liverpoolmuseums.org.uk

Gogledd Cymru: Dawn Thomas,
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
dawn.thomas@northwaleswildlifetrust.org.uk

Diolch i'n partneriaid ac i gyllidwyr
y prosiect



Lancashire,
Manchester &
N Merseyside

